Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Woburn Hill**

**Bae Cemaes**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

1 Mawrth 2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Woburn Hill

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Achieve together Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru'n ffurfiol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon eu byd yn byw yn Woburn Hill. Maent yn datblygu sgiliau annibyniaeth ac yn cael eu cefnogi'n dda ac felly'n magu hyder yn eu gallu. Caiff cyflawniadau'r bobl eu dathlu; mae ffotograffau yn dangos cyflawniadau a digwyddiadau amrywiol. Maent yn cymdeithasu yn y cartref ac yn y gymuned wrth ddilyn eu hobïau a'u diddordebau eu hunain yn y coleg, yr eglwys, ar deithiau dydd i fannau o ddiddordeb ac wrth gynllunio gwyliau dramor. Ymgynghorir â'r bobl ar bob agwedd ar eu bywydau, a chaiff eu hawgrymiadau a'u dewisiadau eu bodloni.

Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli â phethau sydd o bwys i'r bobl sy'n aros ynddynt, gyda phob un yn adlewyrchu personoliaeth yr unigolyn; mae'r cartref yn gyfforddus, yn hamddenol a chartrefol gan roi ymdeimlad o 'gartref teulu'. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wrth eu bodd yn byw yn y cartref a gyda'r bobl sy'n eu cefnogi.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel drwy weithdrefnau fetio da. Maent yn gymwys i gyflawni eu rolau a chânt eu llywio gan bolisïau a gweithdrefnau i gyflawni arferion. Mae'r staff yn hapus yn gweithio yn y cartref, maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod y tîm yn gwrando arnynt.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r cartref yn dda. Mae systemau ar waith sy'n dangos ei fod yn rhagweithiol wrth geisio ffyrdd o wella'r gwasanaeth.

## Llesiant

Rhoddir dewis i'r bobl ac mae ganddynt reolaeth dros bob agwedd ar eu gofal a'u cymorth. Cânt eu cefnogi i wneud yr hyn y maent am ei wneud, pan fyddant yn dymuno. Mae'r cyfarfodydd wythnosol rhwng y staff gofal a'r bobl y maent yn eu cefnogi yn helpu i sicrhau bod pawb yn gwybod beth mae'r bobl yn ei wneud a'r cymorth a'r trefniadau cludo sydd eu hangen i'w cyflawni. Mae'r bobl yn dewis gweithgareddau, mannau i ymweld â nhw ar deithiau dydd a chyrchfannau gwyliau. Maent yn dewis eu prydau bwyd ac yn ymgymryd â'r weithred o siopa bwyd a pharatoi bwyd. Maent yn dewis eu décor a'r ffordd y maent yn dymuno i'w hystafelloedd edrych. Gall y bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf gyfathrebu yn eu dewis iaith gan fod niferoedd uchel o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y cartref. Mae'n fwriad gan y gwasanaeth i gael fersiynau Cymraeg o'r cofnodion gofal ar gael yn rhwydd yn y dyfodol.

Gofelir am lesiant corfforol meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal hyfforddedig sy'n ceisio cyngor proffesiynol os oes angen. Maent yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol ac yn cael gafael ar y cymorth a'r arweiniad amgen sydd eu hangen arnynt. Caiff y bobl gymorth i fynychu apwyntiadau er mwyn monitro a hyrwyddo eu hiechyd a'u llesiant, gan gynnwys eu harchwiliadau meddygol blynyddol. Mae Woburn Hill wedi rhoi egwyddorion arweiniol ar waith i lywio diwylliant arferion gweithio; ceir pwyslais cadarn ar feithrin hyder y bobl a hybu eu hannibyniaeth. Mae'r bobl sy'n byw yno yn hapus ac yn gartrefol iawn.

Caiff y bobl gymorth gan staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac a gafodd eu fetio'n briodol. Maent yn teimlo'n hapus ac yn frwdfrydig; cânt eu gwerthfawrogi gan y darparwr ac aelodau eraill o'r staff ac maent yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed a chânt eu llywio gan bolisïau a gweithdrefnau sydd ar gael yn rhwydd o amgylch y cartref. Mae'r rheolwr yn bresennol yn y cartref bron bob dydd ac felly gall y staff a'r preswylwyr rannu unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am eu gofal a'u cymorth. Teimla'r bobl eu bod yn gallu cerdded i mewn i'r swyddfa a siarad yn rhydd â'r rheolwr.

Mae'r cartref yn fawr ac yn gyfforddus. Mae'r ystafelloedd yn gartrefol ac wedi'u dodrefnu â gosodiadau a ffitiadau o ansawdd da sy'n cyd-fynd â dewisiadau'r bobl sy'n byw yno. Mae teledu sy'n cysylltu â'r we yn y lolfa ac felly gall y bobl wylio rhaglenni o'u dewis pan ddymunant, ac mae gan y bobl deledu yn eu hystafelloedd eu hunain hefyd. Caiff yr ystafelloedd gwely eu haddurno a'u dodrefnu i weddu chwaeth unigol y bobl; maent yn arddangos eu lluniau eu hunain a phosteri o'u hoff dimau pêl-droed a delwau eraill. Mae'r heulfan fawr yn darparu gofod golau a braf i'r bobl eistedd yno i wylio'r teledu. Mae'r ardd yn cynnig gofod braf i'r bobl eistedd yno i fwynhau cymdeithasu â'i gilydd ac i fwyta barbeciw yn yr haf.

## Gofal a Chymorth

Caiff y staff eu llywio gan gynlluniau gofal ysgrifenedig cynhwysfawr a chywir sy'n cynnwys manylion am sut y dylid darparu gofal i bob unigolyn. Mae'r cynlluniau gweithredu iechyd a'r cynlluniau cymorth yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y staff; cânt eu llunio mewn ffordd sy'n pwysleisio cryfderau, annibyniaeth a sgiliau. Caiff y broses adolygu cynlluniau gofal bob tri mis ei chynnal er mwyn galluogi'r bobl i nodi eu barn. Y bobl yw canolbwynt eu sgwrs am eu gofal. Mae teuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol hefyd yn cyfrannu at y broses, ac mae hyn yn sicrhau y cofnodir y cynnydd yn llawn a bod pawb yn cytuno ar y cynllun gofal yn y dyfodol.

Ymgynghorir â'r bobl am bob agwedd ar eu bywyd yn y cartref. Mae'r cofnodion o gyfarfodydd wythnosol y preswylwyr yn nodi barn y bobl ac yn cael eu ceisio yn rheolaidd mewn perthynas â gweithgareddau, dewisiadau prydau a diwrnodau allan, er enghraifft. Caiff y bobl eu cynnwys wrth fynd i siopa ac wrth baratoi prydau bwyd. Gwelsom y gall y bobl helpu eu hunain i ffrwythau ffres sydd ar gael o amgylch y cartref. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o hobïau a diddordebau, megis pysgota, pobi cacennau, addysg bellach, mynychu'r eglwys a mynd ar wyliau dramor. Clywsom fod y rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl y maent yn eu cefnogi yn hamddenol, naturiol a chynnes, sy'n creu ymdeimlad o 'deulu'.  Gwelsom lythyr gan weithiwr proffesiynol a oedd wedi nodi hyn hefyd. Gofynnwyd i'r bobl am eu barn drwy gydol y dydd. Roeddent yn cyfathrebu'n rheolaidd, yn crwydro i mewn ac allan o'r swyddfa ac yn eistedd i sgwrsio. Mae'r bobl yn hapus yn y cartref. Dywedodd un person wrthym; *'This is the best place I have ever been. This is my forever home'*. Dywedwyd wrthym eu bod yn '*love the staff'* a '*the manager is a nice man'*. Gwelsom negeseuon o ganmoliaeth a diolch gan bobl sydd wedi symud ymlaen i fyw yn fwy annibynnol.

Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar ofal iechyd ac unrhyw wasanaethau eraill sydd eu hangen i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r cofnodion yn dangos y gwneir apwyntiadau iddynt weld eu meddyg, y ciropodydd, ymarferwyr deintyddol a'r optegydd a chaiff archwiliadau meddygol blynyddol eu trefnu. Mae'r llythyrau a geir yn y ffeiliau, cofnod o'r apwyntiadau ar y calendr a chyfrifoldebau penodol gweithwyr allweddol o gymorth i gadw'r bobl yn iach. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ac yn addas i gefnogi'r bobl i gadw'n iach.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i'w dilyn os bydd pryder o'r fath. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr bob amser ar gael os bydd unrhyw un am godi pryder. Mae canolbwyntio ar ddiogelu yn rhan o'r fformat cyfarfodydd un i un gyda'r staff. Dengys cofnodion y caiff unrhyw gyfyngiadau ar ryddid y bobl eu gwneud er eu budd gorau a chyda chytundeb llawn y bobl, eu teuluoedd a'r awdurdod diogelu.

## Yr Amgylchedd

Darperir y gwasanaeth mewn cartref sy'n hyrwyddo cyflawniadau canlyniadau personol y bobl. Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr ac wedi'u haddurno a'u dodrefnu i weddu chwaeth unigol y bobl sy'n aros ynddynt; maent yn adlewyrchu eu personoliaethau a'u diddordebau, megis eu hoff dimau pêl-droed a'u hoff gerddorion. Mae cawod a thoiled ensuite ym mhob ystafell wely sy'n helpu i amddiffyn eu preifatrwydd a'u hurddas. Ceir ffenestri mawr yn y cartref sy'n sicrhau bod llawer o olau naturiol yn yr ystafelloedd. Mae soffas cyfforddus a theledu sy'n cysylltu â'r we yn y lolfa a gall y bobl wylio ffilmiau a'u hoff raglenni pan ddymunant. Mae'r gegin wedi cael ei gosod fel y gall y bobl gymryd rhan yn y broses o baratoi bwyd a chaiff cofnodion eu cadw er mwyn sicrhau bod tymereddau'r oergelloedd a'r rhewgelloedd yn ddiogel yn ogystal â'r cigoedd wedi'u coginio. Mae'r heulfan fawr yn cynnig lle amgen i eistedd ac i fwynhau'r heulwen. Gellir eistedd a chymdeithasu yn yr ystafell fwyta a'r ardal awyr agored. Gwelsom fod y cartref yn lân ac yn daclus a'i fod wedi cael ei gynllunio i fod yn gartref 'teuluol'. Caiff cyflawniadau eu dathlu; gwelsom luniau o gacenni wedi'u pobi, pysgodyn a oedd wedi cael ei ddal gan un o'r bobl a dathliadau arbennig.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer unigolion yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau darparu gofal, megis cynlluniau personol gadael mewn argyfwng. Caiff cynlluniau gofal eu llunio er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar gyfarwyddiadau clir ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl yn ddiogel. Mae'r archwiliadau rheolaidd a wneir ar yr adeilad yn sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod unrhyw feysydd i'w gwella neu sydd angen eu hatgyweirio yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw yn gyflym.
Cynhelir gwiriadau diogelwch er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel; caiff tymereddau dŵr, cyfarpar diogelwch tân, profion ar ddyfeisiau cludadwy, gosodiadau trydanol a boeleri nwy ac olew eu gwirio a'u cynnal a'u cadw.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn monitro cynnydd y gwasanaeth a gwirio bod y cartref yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r unigolyn cyfrifol, a gafodd ei benodi gan y darparwr i oruchwylio'r gwasanaeth, yn ymweld â'r cartref bob tri mis ac yn darparu adroddiad ysgrifenedig o'r cynnydd a'r meysydd i'w gwella bob tro. Mae'n amlwg o ddarllen yr adroddiadau hyn bod y staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu cynnwys a bod eu barn yn cael eu ceisio yn ystod pob ymweliad. Ceir cynlluniau gweithredu sy'n cynnwys amserlenni ac mae'r adroddiadau chwarterol yn dangos yr ymdrinnir â meysydd a nodir. Er enghraifft, nodwyd mwy o gyfleoedd i geisio barn preswylwyr yn ffurfiol fel maes posibl i'w wella ac, o ganlyniad i hynny, cafodd y cyfarfodydd wythnosol eu trefnu. Defnyddir arolygon i gasglu barn y bobl ar y gwasanaeth, a gwelsom fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad adolygu 'ansawdd gofal' y gwasanaeth a gwblheir bob dwy flynedd.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn unol â'i ddatganiad o ddiben, gyda'r nod o hyrwyddo annibyniaeth a chefnogi'r bobl i gyflawni eu nodau mewn bywyd yn rhan allweddol ohono. Gwelsom fod rhai o'r bobl wedi cael eu cefnogi i'r graddau y gwnaed cynnydd ac maent bellach yn byw yn annibynnol. Mae amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau yn llywio arferion y staff a gwelsom fod y polisi diogelu a chwythu'r chwiban ar waliau mewn gwahanol ardaloedd o'r cartref.

Caiff y bobl eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff cymwys. Gwelsom y caiff niferoedd y staff a gyflogir bob dydd eu cyfrifo yn unol ag anghenion y bobl a'r gweithgareddau. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd gan y staff ddigon o amser i ryngweithio â'r bobl a'u cefnogi'n dda. Gwelsom y bobl yn cael cymorth i wneud beth roeddent eisiau ei wneud, gan gynnwys gweithgareddau yn y gymuned. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel a'u bod yn cael hyfforddiant er mwyn iddynt fod yn gymwys i gyflawni eu rolau. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant ar-lein. Caiff cymwyseddau'r staff eu profi mewn rhai meysydd gan y rheolwr. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr, eu cydweithwyr a'r darparwr a gwelsom fod y sefydliad yn cynnig rhaglen cymorth i gyflogeion er mwyn cefnogi llesiant y staff, megis gwasanaeth cwnsela. Mae gwobr 'gweithiwr y mis' yn dangos i'r staff eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y cartref a'u bod yn cael boddhad o gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Caiff y staff sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd lle y gallant siarad yn gyfrinachol â'r rheolwr yn ogystal â rhannu eu barn a'u hawgrymiadau ac archwilio eu datblygiad eu hunain o ran eu gyrfa.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/04/2023